

dangos ôl creffwr  
ysbrydoledig.'

Daeth llawer o'u trefniadau, alawon a'u gosodiadau yn boblogaidd trwy Gymru gyfan. Hwy oedd gyntaf i osod 'Caru Cymru' ar Blaenhafren, a fu mor boblogaidd, a sawl un wedi 'benthg' eu gwaith, heb iddynt i gyd gydnabod hynny.

Mae rhestr o'u heitemau ynfaith ac yn cynnwys rhywbeth i bawb, y caeth a'r rhydd, cywyddau ac englynion, y digri a'r dwys. Roeddent yn deall cynulleidfa i'r dim ac yn dewis ar eu cyfer. Mae llyfrau canu fy nhad gennyf ac yr wyf yn eu trysori yn fawr. Ple bynnag yr âf, bydd rhywun yn sicr o holi am fy nghysylltiad â'r Brodyr, ac yn ddi-feth yn adrodd eu hatgofion amdanynt, ac yn aml yn canu rhywbeth a apeliodd iddynt. Rhai yn cofio digrifwch 'A.B.C.' neu englynion 'Dau a dwy', neu 'Chwerthin', eraill yn cofio 'Cywydd Coffa Eifion Wyn' neu 'Y Border Bach', 'Cloch y Llan' neu 'Fy Olwen I'.

Dros y blynyddoedd cefais deyrnged iddynt o lawer cwr; y Parch Tom Nefyn Williams yn datgan iddo gael profiad dwfn wrth wrando arnynt yn canu 'Ar Ei ben bo'r goron' mewn cyngerdd yn Rhyd Ddu.

Adroddodd Llwyd o'r Bryn lu o hanesion amdanynt yn mynd o gwmpas. Bu gyda hwynt yn cyngherdda yn y De am wythnos gan orffen yn Llanbryn-mair, ac yna, wedi'r cyngerdd, Noson Lawen fythgofiadwy. Cofiai hefyd am 'Watchnight' yn Llandderfel a

Mr Davies y post wedi dod â'i set radio newydd i'r neuadd i glywed 'Big Ben' yn taro hanner nos, a'r ddau frawd yn codi o'r gynulleidfa a cherdded i'r llwyfan tan ganu. 'Gwefreiddiol', meddai.

Y gofid mawr yw nad oes

## TELYN ERYRI

GAN

G. W. FRANCIS

WRECCSAM  
HUGHES AT FAB, CYHOEDDWR  
1932

record ohonynt. Fe wnaed cytundeb gyda chwmi recordio enwog i wneud set o ddwsin, ond pan gyraeddasant y stiwdio yr oedd telyn yn eu disgwyl. Ni allai Bob Owen chwarae telyn ac nid oeddynt am ganu hebbdo, felly adre a nhw, a dyna yn syml pam nad oes record yn bodoli.

Beth tybed, oedd eu hapel? Mae'n sicr fod ganddynt leisiau arbennig o gyfoethog, Griffith yn fariton ac Owen yn denor. Yr oeddynt yn paratoi yn drylwyr

ond, yn bennaf oll, yr oeddynt yn artistiaid, yn meddu'r ddawn i gyflwyno cân a hawlio sylw'r gwrandawyr. Peth greddfoll mae'n siŵr, ond o gofio na chwasant fawr o addysg, a magwraeth galed, mae'n syndod iddynt wneud y fath argraff ar genedl gyfan a gadael lluo o atgofion melys i gymaint, yn ogystal â chyfrol o farddoniaeth wedi ei gyhoeddi gan Griffith sef *Telyn Eryri*, a digon o ddeunydd i gyfrol arall sydd heb ei gyhoeddi, ond sydd ar gael yn y Llyfrgell Genedlaethol, gyda chopi yn llyfrgell y Brifysgol ym Mangor, ac un arall yn Archifdy Gwynedd o dan y teitl 'Rhwng yr Ordd a'r Eingion', ynghyd â phentwr o alawon a thonau wedi eu cyfansoddi gan fy nhad. Mae llawer ohonynt wedi ymddangos mewn detholiadau gwahanol enwadau tros y blynyddoedd, ac mae ei dôn 'Mair Alaw', gyda geiriau Griffith, wedi ei threfnu i gôr meibion gan Gwilym Lewis M.Mus.

Medd E.Morgan Humphreys yn ei ragair i *Telyn Eryri*.

'Nid wyf yn gerddor, ond gwn fod y ddau frawd wedi rhoddi rhywbeth mwy na lleisiau ystywyth cyfoethog i'r gelfyddyd Gymreig o ganu gyda'r tannau. Rhoddasant hefyd lafur diflino, ymdrech ddiortffwys i ddeall a meistrolï'r grefft, a gallu meddyliol a diwylliant a barai iddynt wybod sut i wneud prydfertwch a chadernid y farddoniaeth a genid ganddynt yn ddealladwy ac yn amlwg i bawb. Ni all neb â'u clywodd yn gosod Cywydd Penmon neu Rhiain yr Haf

beidio teimlo'r diwylliant a'r gwelediad a'r gallu meddyliol a aeth i berffeithio'r grefft.'

Yn *Canrif o Gan, Cyfrol 2* dywed Aled Lloyd Davies:

'Mae'n amlwg fod canu'r Brodyr Francis wedi gwefreiddio gwrandawyr y cyfnod.' Ac eto ...mae hyn yn rhoi lle i gredu mai dyma'r enghraifft gynharaf o ganu penillion deulais yng Nghymru.'

Bu'r galwadau am eu gwasanaeth yn ddi-baid drwy'r dau ac i'r tri degau. Ni fyddent byth yn gwrthod cais, yn arbennig at achos teilwng (ac yr oedd llawer cyngerdd 'Elusennol' yn y cyfnod yma). Rhwng llwch y chwalew a'r teithio maith, yn aml i neuadd oer, torrodd iechyd fy nhad. Bu farw ar Ebrill 6ed, 1936, yn 56 oed. Ymhen llai na thri mis, bu farw Griffith. Bellach yr oedd y delyn yn fud. Efallai i Ioan Brothen daro'r hoelen ar ei phen yn ei englyn coffa:

Dau Ganwr

Rhy dawel i roi deuaud - yw Owen  
Tawodd yr hoff gymrawd;  
I 'Ryffydd brydydd a brawd,  
Anodd fydd canu deuaud.

Bu tristwch dros Gymru gyfan, a theyrnged iddynt ymhob papur a chylchgrawn. Dyma ran o goffâd *Y Cerddor*, Awst 1936.

'Perthynent i ddosbarth sydd o'r pwysigrwydd mwyaf i'r diwylliant Cymreig ...yr oeddent yn fyw i bopeth gwir Cymreig yn gerdd ac yn gân. Perthynent i'r dosbarth gorau o Werinwyr. Ac ni bydd perygl iddi (Cymru) gollu ei hen draddodiadau tra deil i fagu rhai fel y Brodyr Francis.'

## Adolygiad

### *A Rhondda Boy 1906-1914*

Ivor Howells, Cyhoeddwyd gan Mrs Gwen Howells, Meadow View, Elmsworth, Hampshire PO10 8RF. Pris £6.99

*Rhondda born and bred, Rhondda educated, apart from his degree years at Aberystwyth.*

Mae'r frawddeg hon yn crynhoi holl gynnwys y gyfrol hon, sef, hunangofiant brodor o'r Porth, Ivor Howells, a benderfynodd roi pin ar bapur a chofnodi hanesion difyr o'i lencyndod yn y Rhondda, ac yntau, bellach dros ei ddeg a phedwar ugain, mewn Cartref Nyrsio yn Hampshire. Anogwyd ef i'w ysgrifennu gan Owen Vernon Jones, yntau hefyd yn frodor o'r Porth ac yn gyn-brifathro Ysgol Ramadeg y Porth. Yn anffodus, bu farw Ivor Howells cyn i'r gyfrol weld golau dydd. Yn Saesneg y'i hysgrifenydd ond mae'r Rhagair gan y Golygydd, Owen V. Jones yn ddwyieithog.

Gan i mi gael fy magu yn y Cymoedd yn y pedwar a'r pum degau, cefais y gyfrol yn hynod

ddifyr, yn enwedig y bennod *Visiting the Doctors's*: Cofiai yn iawn y drefn holl-bwysig yn ein syrjeri ni yng ngwaelod y stryd,



Clawr: A Rhondda Boy

a'r parch reit arswydus a ddangosid tuag at y *Dispenser*. Mae Ivor Howells yn adrodd stori reit arswydus am *Dispenser* yn ei Syrjeri o, sydd yn werth ei darllen.

Pennod arall a fwynheais yn fawr ac a ddaeth ag atgofion hapus yn ôl oedd *A Woman's Place*, a'r stori fach ar y diwedd am gyfweiliad a gafodd Alan Whicker, y gohebydd o Sais, â bachgen bach o Dylorstown. Doniol dros ben i un a ddealla ac a arferai ddefnyddio ieith-wedd debyg! Mae'r bachgen yn dweud wrth Alan Whicker ei fod yn arfer glanhau 'Cefn' (tŷ) ei fodryb bob dydd Sadwrn, a'r Sais, wrth gwrs, yn methu dirnad â'r defnydd o'r gair 'Back':

'How long does that take?'

'About an hour.'

'What do you use to wash her back?'

'A large number of buckets and a hard brush.'

'Does it hurt her?'

'How could it? She stands at the kitchen window watching to see if I was it clean.'

'She stands at the kitchen window watching you clean her back?'

'Yes.'

Yn y bennod *Shop, Pop and the Coop*, mae Ivor Howells yn mynd â ni nôl i oes y *Maypole*, *Pegler's*, *Home and Colonial* - siopau sydd wedi hen ddiplannu bellach o'r stryd fawr, a'r Coop, wrth gwrs, yn holl bwysig ym mywyd pobol y cymoedd yr adeg honno.

Mae'n cyfeirio hefyd at *Tapping a Sbrigs*, geiriau a fu unwaith yn rhan o'm geirfa i wrth ymweld â'r crydd yn ei siop ar gornel y Cross Inn yn Nhrefynon. Chwaraem ni, blant, lawr yn y Gwli, sef y bwllch rhwng rhes o dai teras - *The Gwli* oedd ein disgrifiad ni o'r lle - hollol ddwyieithog!

Yr unig beth na hoffwn yn ei lyfr oedd y mynych gyfieithiadau o enwau lleol, megis *Big Rhondda*, *Little Valley* (Glynfach), *Crow's Nest* (Nyth Brân). At bwy yr anelir yr hunangofiant felly? At Saeson Lloegr neu at drigolion di-Gymraeg y De (nad ydynt yn Gymry, yn ôl yr Athro Harold Carter!) Ond arwynebol iawn yw hyn, ac argymhellaf chi i'w ddarllen, er mwyn blasu peth ar y bywyd difyr, ond caled, yn y Cymoedd ar ddechrau'r ganrif ddiwethaf.

Lis Williams